Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cymdeithas Grŵp Chwarae Gogledd Corneli**

**Canolfan Blant Integredig Corneli**
**Greenfield Terrace**
**Gogledd Corneli**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF33 4LW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

21/03/2023

# Cymdeithas Grŵp Chwarae Gogledd Corneli

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Cymdeithas Grŵp Chwarae Gogledd Corneli |
| Lleoedd cofrestredig | 28 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad cyntaf ers cofrestru yn 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r lleoliad yn canolbwyntio ar y plant ac mae pwyslais da ar roi cyfleoedd i'r plant gyfarwyddo eu chwarae a'u dysgu eu hunain. Mae'r plant wedi setlo ac yn fodlon eu byd. Maent yn cael cyfleoedd i fod yn annibynnol ac i feithrin eu sgiliau drwy amrywiaeth o brofiadau chwarae. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau agos â'r staff gofal a'r plant eraill, ac mae hynny'n gwneud iddynt deimlo'n ddiogel.

Mae'r staff yn meddu ar y cymwysterau priodol. Maent yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff gofal yn rhoi polisïau a gweithdrefnau sylfaenol ar waith yn dda. Maent yn cynllunio rhai gweithgareddau diddorol, ac yn trefnu adnoddau sy'n ysgogi ac yn dal dychymyg y plant a phrofiadau chwarae.

Mae'r amgylchedd yn lân, yn groesawgar ac yn drefnus. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hwn yn sicrhau bod yr amgylchedd mewn cyflwr da a'i fod yn ddiogel yn gyffredinol. Mae amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau dan do ac awyr agored ar gael i'r plant.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn dda. Mae'r arweinwyr wedi dechrau adolygu eu polisïau a'u gweithdrefnau ac maent yn sicrhau bod y rhain yn cael eu rhoi ar waith yn gyffredinol. Caiff y rhan fwyaf o'r cofnodion gofynnol eu cadw. Mae'r arweinwyr yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag amddiffyn plant. Mae'r gwiriadau recriwtio staff yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Mae cyfleoedd datblygu staff boddhaol ac addas ar gael ac mae'r rhain yn cael eu datblygu ymhellach ar hyn o bryd. Mae'r partneriaethau yn dda.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud dewisiadau pwrpasol ac yn defnyddio ardaloedd y ddarpariaeth yn hyderus. Er enghraifft, maent yn mwynhau dewis yr adnoddau chwarae rôl yn y gornel gartref ac archwilio o'u cwmpas. Mae rhai plant yn mwynhau chwarae â'r blociau pren mawr a choginio gyda'r offer cegin yn y gornel gartref. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyfathrebu ac yn mynegi eu hanghenion a'u dewisiadau ac mae rhai yn defnyddio cliwiau dieiriau fel pwyntio at yr hyn y maent ei eisiau. Mae gan y plant lais cryf iawn yn y gwasanaeth. Amser byrbryd, mae'r plant yn dewis eu diodydd a'u bwyd eu hunain. Maent yn mynegi eu hunain yn hyderus ac yn teimlo bod yr ymarferwyr yn gwrando arnynt. Mae'r plant nad ydynt am gymryd rhan mewn gweithgaredd grŵp yn mynegi eu hunain yn glir ac yn dewis gweithgareddau eraill yn hapus.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyrraedd y lleoliad yn llawn brwdfrydedd ac yn ymdopi'n dda wrth ffarwelio â'u rhieni a'u gofalwyr. Maent yn meithrin cydberthnasau agos â'r ymarferwyr, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant a'u cymhelliant. Mae'r plant sydd wedi dechrau yn y lleoliad yn ddiweddar wedi meithrin cydberthnasau da â'r ymarferwyr, yn enwedig eu gweithwyr allweddol penodol, sy'n eu helpu i setlo. Mae gan y plant gydberthnasau da iawn â'r staff. Maent yn hoffi bod yn agos iddynt ac yn ceisio maldod yn ddigymell.

Pan fo'n briodol, mae'r ymarferwyr yn rhoi cysur a sicrwydd tyner iddynt. Mae'r plant yn gwybod y bydd yr ymarferwyr yn ymateb yn effeithiol i'w hanghenion. Er enghraifft, maent yn mynd atynt pan fyddant wedi brifo neu'n teimlo'n drist ac mae'r ymarferwyr yn eu cysuro ar unwaith. Mae gan y plant ymdeimlad o berthyn ac maent yn gwenu pan fyddant yn cael eu canmol am fod yn garedig i ffrind neu am fod yn gynorthwywyr gwych adeg amser tacluso. Roedd y staff yn eu canmol drwy ddweud "well done" a "da iawn".

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn frwdfrydig ac yn mwynhau cyfleoedd i chwarae a dysgu. Maent yn dangos diddordeb brwd ac yn ymgysylltu'n dda â'r rhan fwyaf o'r profiadau sydd ar gael iddynt. Mae'r plant i gyd bron yn dangos chwilfrydedd ac yn rhoi cynnig ar amrywiaeth o gyfleoedd chwarae.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn canolbwyntio am gyfnod priodol o amser ac yn ymateb yn gadarnhaol i anogaeth gan yr ymarferwyr. Maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau'n dda, er enghraifft wrth ymuno â'r gerddoriaeth a'r caneuon actol yn ystod amser cylch neu wrth beintio y tu allan. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn profi ymdeimlad o gyflawniad a balchder pan fyddant yn llwyddo mewn gweithgareddau, er enghraifft, pan fo un plentyn yn chwarae â blociau pren mawr ac yn eu gosod ar ben ei gilydd i greu tŵr mawr, mae'n gweiddi'n hapus “I did it”!

Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth yn effeithiol gyda chymorth y gweithiwr allweddol. Wrth gyrraedd, maent yn cael eu helpu i gymryd cyfrifoldeb am storio eu heiddo a hongian eu cotiau a'u bagiau. Caiff y plant i gyd bron eu hannog i

gwblhau tasgau hunan-ofal yn annibynnol gyda chymorth y staff. Er enghraifft, maent yn golchi eu dwylo ar adegau priodol ac yn mynd ar ôl hancesi i sychu eu trwyn, maent yn dewis naill ai ddŵr neu laeth i'w yfed gydag anogaeth ac maent yn defnyddio cyllyll bach i dorri eu ffrwythau. Roeddent yn cael eu hannog hefyd i helpu i dacluso'r adnoddau ar ddiwedd y sesiwn. Roedd y plant yn cael eu hannog i aros eu tro hefyd.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r ymarferwyr yn cyfathrebu'n hynod o dda â'r plant ac yn creu awyrgylch digyffro ac ymlaciol.  Maent yn fodelau rôl cadarnhaol iawn i'r plant ac yn rhyngweithio'n bwrpasol â nhw drwy gydol y sesiwn. Er enghraifft, maent yn eistedd gyda'r plant yn ystod amser cinio, gan ddangos sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu da ac yn arwain at drafodaethau ystyrlon wrth i'r plant chwarae. Maent bob amser yn cefnogi ac yn datblygu sgiliau cyfathrebu'r plant drwy eu canmol mewn ffordd glir a chadarnhaol. Mae'r ymarferwyr yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith yn effeithiol ar y cyfan. Maent yn dilyn gweithdrefnau hylendid da yn gyffredinol. Er enghraifft, maent yn golchi eu dwylo'n rheolaidd ac yn ymdrin â gofal personol, fel mynd â'r plant i'r toiled, yn briodol. Mae'r gweithdrefnau newid cewynnau yn unol â chanllawiau rheoli heintiau cyfredol. Fodd bynnag, cyn ac ar ôl amser byrbryd, anogwyd y plant i gyd i olchi eu dwylo mewn bowlen fawr yn y sinc gerllaw'r orsaf byrbrydau barhaol. Gallai hyn arwain at groesheintio a halogi sy'n risg o ran iechyd a diogelwch. Mae'r ymarferwyr yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chadw'r plant yn iach, ac maent yn cefnogi ac yn annog y plant i gael awyr iach ac yn darparu dewis o fyrbrydau iach. Mae'r ymarferwyr yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn mewn argyfwng. Maent yn cynnal ymarferion tân rheolaidd gyda'r plant er mwyn sicrhau bod y plant yn gwybod beth i'w wneud os bydd angen iddynt adael y safle mewn argyfwng, ac maent yn cofnodi'r canlyniad. Mae systemau priodol ar waith i gofnodi digwyddiadau a damweiniau. Mae'r rhain yn cynnwys digon o fanylion a thystiolaeth i ddangos bod y wybodaeth wedi cael ei rhannu â'r rhieni. Cynhelir archwiliad misol o ddamweiniau a digwyddiadau er mwyn helpu i wella iechyd a diogelwch ac asesu risg yn effeithiol, ac mae hyfforddiant ar gymorth cyntaf yn gyfredol ac yn addas i oedran y plant sy'n cael gofal. Mae'r polisi diogelu yn bodloni'r gofynion ac mae'r staff i gyd wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu. Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth ddigonol o bolisi a gweithdrefnau diogelu'r lleoliad mewn perthynas ag unrhyw faterion diogelu ac mae ganddynt hyder ynddynt.

Mae'r ymarferwyr yn rheoli ymddygiad y plant mewn ffordd gadarnhaol ac yn dilyn polisi'r lleoliad yn effeithiol. Maent wedi datblygu amrywiaeth o strategaethau llwyddiannus i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol, er enghraifft, defnyddio technegau tynnu sylw ac atgyfnerthu cadarnhaol. Maent yn canmol y plant yn gyson am fod yn garedig neu am rannu adnoddau, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad a hunan-barch y plant. Mae'r ymarferwyr yn rheoli ymddygiad y plant mewn ffordd gadarnhaol ac yn dilyn polisi'r lleoliad yn effeithiol. Maent wedi datblygu amrywiaeth o strategaethau llwyddiannus i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol, er enghraifft, defnyddio technegau tynnu sylw ac atgyfnerthu cadarnhaol. Maent yn canmol y plant yn gyson am fod yn garedig neu am rannu adnoddau, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad a hunan-barch y plant. Mae'r lleoliad wedi gweithio'n galed i wella gweithdrefnau i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol, fel delio â newidiadau staffio ac unrhyw blant newydd sy'n dechrau, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfan yn y lleoliad. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn ymwybodol o'r hyn y mae plant unigol yn ei hoffi ac yn gwybod pa blant sy'n ymateb yn dda i aelodau penodol o'r staff. Maent hefyd yn gweithredu cynlluniau gofal plant

unigol yn effeithiol. Mae'r lleoliad wedi gweithio'n galed i wella gweithdrefnau i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol, fel delio â newidiadau staffio ac unrhyw blant newydd sy'n dechrau, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfan yn y lleoliad. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn ymwybodol o'r hyn y mae plant unigol yn ei hoffi ac yn gwybod pa blant sy'n ymateb yn dda i aelodau penodol o'r staff. Maent hefyd yn gweithredu cynlluniau gofal plant unigol yn effeithiol.

Mae'r staff yn canolbwyntio'n dda ar ddiddordebau'r plant, eu hanghenion a'u datblygiad unigol. Maent yn cydweithio'n dda i ddatblygu hyder a gwydnwch y plant. Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd diddorol i'r plant i gyd ac mae'r cyfleoedd hyn yn seiliedig ar ddewisiadau a phenderfyniadau'r plant gymaint â phosibl. Maent yn defnyddio rhywfaint o Gymraeg achlysurol yn y lleoliad, fel rhai geiriau o ganmoliaeth a chyfarchion, ac maent yn canu rhai caneuon Cymraeg. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'r defnydd a wneir o'r Gymraeg gyda'r plant wedi cael ei ddatblygu'n ddigonol. Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd amrywiol a gwerthfawr i'r plant ddysgu am y byd o'u cwmpas. Maent yn mynd ar deithiau cerdded natur ac yn mynd am dro ar safle'r ysgol ac yn y gymuned. Mae'r plant yn dathlu diwylliannau gwahanol yn llwyddiannus drwy ddysgu am wyliau fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Dydd Gŵyl Dewi gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau crefft a storïau.

| Yr Amgylchedd | Da |
|---|---|

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylcheddau dan do ac awyr agored yn ddiogel. Yn gyffredinol, mae asesiadau risg addas ar waith, gan gynnwys gwiriadau dyddiol. Rhaid i aelod o'r staff adael ymwelwyr i mewn i'r lleoliad ac mae pob ymwelydd yn llofnodi cofnod wrth gyrraedd a gadael y safle. Caiff yr holl wiriadau diogelwch gofynnol eu cwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol, gan gynnwys profion tân a thrydanol. Mae'r safle yn lân ac mae'r ymarferwyr i gyd yn dilyn gweithdrefnau hylendid effeithiol. Maent yn golchi'r byrddau cyn gweini bwyd ac yn gwisgo dillad diogelu priodol. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid cewynnau yn briodol, ac mae'r ymarferwyr yn dilyn canllawiau i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y plant.

Mae'r safle yn gynnes ac yn groesawgar ac yn darparu amgylchedd effeithiol i'r plant chwarae a dysgu. Caiff yr amgylcheddau dan do ac awyr agored eu defnyddio'n dda i hyrwyddo dysgu a datblygiad. Mae'r ardal awyr agored yn ysgogol ac mae'n hawdd mynd iddi o'r amgylchedd dan do. Mae hyn yn gwella'r ddarpariaeth er mwyn cefnogi datblygiad corfforol y plant yn dda.

Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth helaeth o deganau ac adnoddau sy'n briodol i gam datblygiad y plant ac sy'n eu diddori'n dda, gan gynnwys ystafell gweithgareddau synhwyraidd. Mae'r teganau a'r cyfarpar chwarae i gyd yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'r lleoliad yn defnyddio deunyddiau naturiol a chynaliadwy fel rhan o chwarae'r plant yn effeithiol. Mae'r arweinwyr yn llwyddo i annog dysgu gweithredol drwy weithgareddau, fel chwarae blêr, sy'n annog plant i arbrofi a defnyddio eu dychymyg. Er enghraifft, gwelwyd y plant yn peintio gan ddefnyddio sbyngau a phaent glas yn yr ardal awyr agored ac yn gludo plu lliwgar a gwrthrychau eraill ar collage ar thema'r gwanwyn/y Pasg. Caiff y rhan fwyaf o'r adnoddau eu storio ar lefel isel fel y gall y plant gael gafael arnynt a gwneud eu dewisiadau eu hunain. Mae digon o ddeunyddiau chwarae i hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac amrywiaeth, sy'n sicrhau bod y plant yn meithrin dealltwriaeth briodol o'r byd y maent yn byw ynddo. Mae'r dodrefn a'r cyfarpar yn lân, yn briodol ac o ansawdd da. Mae lleoedd ac ardaloedd priodol ar gael i'r plant fynd iddynt i gael tawelwch a chysgu.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth Da

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth dda ar gyfer y gwasanaeth, ac maent yn ei rhannu ag eraill. Mae ganddynt ddatganiad o ddiben clir sy'n cyfrannu at y gwaith o redeg y lleoliad. Mae gan yr arweinwyr wybodaeth ddigonol am eu cyfrifoldebau rheoliadol. Maent yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â llawer o'r rheoliadau perthnasol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Maent yn adolygu eu polisïau a'u gweithdrefnau'n rheolaidd ac maent yn sicrhau bod y rhain yn cael eu rhoi ar waith yn gyffredinol. Caiff y cofnodion gofynnol eu cadw ac maent o ansawdd da. Mae'r arweinwyr yn rheoli'r tîm o staff yn dda, gan gynnwys ymgysylltu ag AGC a rhoi gwybod am ddigwyddiadau o bwys.

Mae'r arweinwyr yn adolygu ansawdd y gofal bob blwyddyn ac maent wedi llunio adroddiad cynhwysfawr ar ansawdd gofal y gwasanaeth ar gyfer 2023/24.

Mae'r arweinwyr yn dilyn prosesau da wrth ymdrin ag unrhyw bryderon. Mae'r arweinwyr yn dilyn proses recriwtio ddiogel er mwyn diogelu'r plant ac mae systemau boddhaol ar waith i ddiweddaru gwiriadau addasrwydd pan fo angen. Maent yn defnyddio gweithdrefn sefydlu effeithiol ar gyfer ymarferwyr. Mae'r arweinwyr yn gweithredu systemau goruchwylio ac arfarnu rheolaidd da sy'n helpu gyda datblygiad proffesiynol y staff a llesiant unigolion. Mae'r arweinwyr yn cefnogi ymarferwyr i gael hyfforddiant gorfodol. Maent yn sicrhau bod y cymarebau staffio yn cael eu bodloni yn unol â'r rheoliadau.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â'r rhieni yn dda. Mae gan yr arweinwyr gysylltiadau â gweithwyr proffesiynol perthnasol, y gymuned a rhanddeiliaid eraill. Er enghraifft, gwnaethant ddweud wrthym fod ganddynt gydberthnasau da â'r awdurdod lleol a'r ysgol a'u bod yn cynnal sesiynau rhagflas i ddarpar blant newydd a'u teuluoedd. Yn ogystal, mae'r arweinwyr yn gweithio'n dda gydag arweinwyr cyn-ysgol iach er mwyn hyrwyddo bwyta'n iach a bwydlenni iach, a rhoi help a chyngor mewn perthynas ag iechyd y plant a'u deiet. Maent yn rhan o raglen Cynllun Gwên ar gyfer gofal deintyddol. Mae gan yr arweinwyr system dda ar waith ar hyn o bryd i sicrhau, pan fydd pryderon ynglŷn â chynnydd neu ddatblygiad plant, fod gweithdrefnau a phrotocolau effeithiol ar waith i rannu gwybodaeth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 17/05/2023